Community Housing Cymru

# Ymateb CHC i Ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb

## Tachwedd 2024

### Am Cartrefi Cymunedol Cymru

Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais cymdeithasau tai yng Nghymru. Rydym yn cynrychioli ac yn cefnogi 33 o gymdeithasau tai a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol. Mae ein haelodau yn darparu bron 174,000 o gartrefi i 10% o boblogaeth Cymru.

### Crynodeb o'n ymateb

Dyrannodd Cyllideb Derfynol 2024-25 Llywodraeth Cymru dros £1bn ar gyfer blaenoriaethau tai, ar draws cyfalaf a refeniw. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi cymdeithasau tai yng Nghymru i barhau i adeiladu cartrefi fforddiadwy newydd, buddsoddi mewn cartrefi presennol a darparu cymorth ansawdd uchel i'w tenantiaid, yn cynnwys drwy'r argyfwng costau byw.

I fedru parhau i ddarparu'r cartrefi ansawdd uchel a'r cymorth y mae tenantiaid tai cymdeithasol ledled Cymru yn dibynnu arno, mae'n rhaid i gyllideb 2025-26 Llywodraeth Cymru ddiogelu'r buddsoddiad 2024-25 yma ac ymateb i gynnydd mewn chwyddiant. Yn ogystal â diogelu cyfanswm buddsoddiad mewn cartrefi a chefnogi rhaglen fuddsoddi gytbwys, mae angen sicrwydd aml-flwyddyn a hyblygrwydd cyllid i wneud yn siŵr ein bod yn cyflawni cymaint o werth ag sy'n bosibl ar gyfer dinasyddion Cymru.

Rydym angen:

- **Grant Cymorth Tai a gaiff ei ariannu'n ddigonol**

Dyma'r brif ffrwd refeniw sy'n atal ac yn ymateb i ddigartrefedd ac yn helpu pobl i gynnal eu cartrefi. Heb fuddsoddiad sydd o leiaf yn gyfwerth â chwyddiant i dalu'n deg i weithwyr rheng-flaen, caiff gwasanaethau eu cwtogi. Nid yw hyn yn gynaliadwy ar adeg pan fo'r galw yn cynyddu. Dim ond 16% o ddarparwyr ddywedodd fod setliad cyllideb derfynol y llynedd yn ddigon i dalu am yr holl gostau o redeg gwasanaeth ansawdd uchel gyda nifer dda o staff.

Gwelodd Cyllideb Derfynol 2024-25 Llywodraeth Cymru gynnydd o £13 miliwn (7.8%) ar gyfer y Grant Cymorth Tai i helpu mynd i'r afael â phwysau chwyddiant mewn gwasanaethau cymorth tai, yn arbennig yng nghyswllt tâl a helpu'r sector i gyflawni ein nod am Waith Teg a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Dylai hyn yn awr fod y llawr newydd ar gyfer buddsoddiad ar gyfer 2025-26. Mae angen cyllid ychwanegol bob blwyddyn i alluog cyflenwi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ym mhob gwasanaeth a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai.

Mae ein haelodau, yn arbennig y rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau a gyllidir gan y Grant Cymorth Tai a gofal cymdeithasol, yn bryderus am effaith y cynnydd i Yswiriant Gwladol cyflogwyr a gyhoeddwyd yn Natganiad yr Hydref. Mae hyn ar ben pwysau ariannol presennol i ateb ymrwymiadau'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

Mae yn awr bryderon sylweddol fod gan y cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol y potensial i wthio darparwyr cymorth dros y dibyn. Mae'n achosi risg enfawr i gynaliadwyedd gwasanaethau ansawdd uchel, a allai adael llywodraeth leol heb y dulliau maent eu hangen i atal a lliniaru digartrefedd. Yn fwyaf hanfodol, gallai arwain at bobl sy'n ddigartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref yn methu cael mynediad i'r tai a'r cymorth y mae ganddynt angen mor ddybryd amdano.

Mae'r enghreifftiau canlynol gan bedwar darparydd yn dangos maint y costau ychwanegol sy'n ganlyniad newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr:

- £429,000
- £245,000
- £500,000
- £620,000

Os nad yw Llywodraeth y DU yn eithrio gwasanaethau sector nid-er-elw, rydym angen i Lywodraeth Cymru:

- Ddarparu cyllid ychwanegol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025/26 ar gyfer costau ychwanegol Yswiriant Gwladol sy'n wynebu'r Grant Cymorth Tai a gwasanaethau digartref a chymorth tai a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ym mhob rhan o'r wlad.
- Gweithio gyda llywodraeth leol a darparwyr i sicrhau fod y cyllid angenrheidiol yn cyrraedd darparwyr ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

- **Cyllid cyfalaf ar gyfer mwy o gartrefi drwy'r Grant Cymorth Tai a'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol**

Mae angen gwarchod a gwella buddsoddiad cyfalaf ar gyfer cynnydd mewn chwyddiant, wedi canoli ar ddull ystwyth a phragmatig o gyllid. Disgwylir i gymdeithasau tai gyflenwi dros 70% o'r holl gartrefi fforddiadwy newydd yn nhymor hwn y Senedd, gan wneud cyfraniad sylweddol i darged Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi newydd.

Lle nad yw datblygiadau newydd wedi symud ymlaen mor gyflym ac mor niferus ag sydd angen, mae'r

Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn creu capasiti llety ychwanegol drwy ailfodelu, trawsnewid a llety modwlar. Mae'r cynllun hwn wedi galluogi cymdeithasau tai i ddatblygu capasiti tai ac uchafu'r defnydd o gartrefi presennol. Os diogelir cyllid, rhagwelir y bydd y Rhaglen hon yn cyflenwi tua 2000 o gartrefi ychwanegol erbyn diwedd tymor y Senedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r ystadegau diweddaraf ar ddarpariaeth tai fforddiadwy ar gyfer 2023/24 ar 11 Rhagfyr.

- **Diogelu cymorth argyfwng tebyg i'r Gronfa Cymorth Dewisol**

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol fu'n achubiaeth ar gyfer rhai sy'n cael trafferthion oherwydd yr argyfwng costau byw. Mae'n rhaid hefyd wella'r rhaglen fel y gall barhau i ddarparu cymorth brys yn gyflym, yn deg ac yn ddibynadwy i'r rhai sydd mewn angen. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir integreiddio mesurau ataliol yn y gronfa, er enghraifft drwy drefniadau atgyfeirio cryfach i roi cymorth ariannol holistig i gefnogi gwasanaethau a ddarperir gan gymdeithasau tai neu wasanaethau cymorth annibynnol.

- **Cyllid i liniaru effaith costau ychwanegol Yswiriant Gwladol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol sy'n wynebu gwasanaethau gofal cymdeithasol ar draws Cymru**

Mae un gymdeithas tai sy'n darparu gofal wedi amcangyfrif y bydd yn costio dros £660,000 iddynt i dalu'r cynnydd ar ben £680,000 arall i ateb y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol. Ar ben yr anhawster ariannol sylweddol y mae darparwyr gofal cymdeithasol yn ei brofi eisoes, mae gan y newidiadau hyn y potensial i wthio gwasanaethau hanfodol dros y dibyn.

Rydym angen sicrwydd Llywodraeth Cymru y byddant yn camu mewn i ddiogelu'r sector gofal cymdeithasol os nad yw San Steffan yn rhoi datrysiad. Yn benodol, rydym angen i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid ychwanegol yn y Gyllideb ar gyfer 25/26 ar gyfer y costau Yswiriant Gwladol a'r Cyflog Byw Gwirioneddol sy'n wynebu'r sector gofal a gomisiynir, gan sicrhau y caiff cyllid ei neilltuo'n glir fel bod gan gomisiynwyr a darparwyr eglurdeb a sicrwydd y darparwyd digon o gyllid ar gyfer y costau hyn ac i weithio gyda llywodraeth leol, y GIG a grwpiau cynrychioli darparwyr i wneud yn siŵr bod y cyllid sydd ei angen yn cyrraedd darparwyr ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

**1. Beth, yn eich barn chi, fu effaith Cyllideb 2024-25 Llywodraeth Cymru?**

## Atal digartrefedd a chaledi ar gyfer unigolion

### Digartrefedd a chymorth tai

Er bod cymdeithasau tai wedi rhoi croeso cynnes i'r £13m ychwanegol ar gyfer y Grant Cymorth Tai yng nghyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, mae tystiolaeth ddiweddar a gasglwyd gan CHC a Cymorth Cymru yn awgrymu nad oedd y cynnydd yn ddigon i dalu am yr holl gostau:

- Dim ond 16% ddywedodd fod y setliad cyllideb terfynol yn ddigon i dalu am holl gostau rhedeg gwasanaeth ansawdd uchel gyda nifer dda o staff.
- Mae 66% yn gorfod defnyddio incwm o rannau eraill o' sefydliad (e.e. incwm rhent, incwm hyfforddi) i roi cymhorthdal i wasanaethau.

Cafodd y cynnydd mewn galw a chymhlethdod, ynghyd â chyfyngiadau ar gyllid, effeithiau sylweddol ar

staff gyda 91% o ddarparwyr yn dweud y bu effaith negyddol ar lesiant, salwch a lludded staff dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ychwanegol at hyn, mae trosiant staff yn parhau'n uchel gyda 50% o ddarparwyr a ymatebodd yn dweud y bu cynnydd mewn trosiant staff dros y flwyddyn ddiwethaf.

Pan ofynnwyd am yr effaith debygol pe na byddai cynnydd i'r Grant Cymorth Tai yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26, y mae'n debyg y bydd angen i:

- 74% o ddarparwyr ostwng capasiti gwasanaeth  / oriau cymorth.
- 52% o ddarparwyr ddileu swyddi.
- 47% o ddarparwyr ddychwelyd contractau presennol.

Mae'r cynnydd yn yr angen am ymyriadau ataliol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn golygu fod adnoddau cymorth cymdeithasau tai eisoes dan bwysau enfawr. Rhagwelir y bydd hyn yn dod yn yrrwr allweddol hyd yn oed fwy o gostau gyda chynigion Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd. Mae'n rhaid i ffocws cynyddol ar ddigartrefedd gael ei gefnogi gan y cymorth ariannol sydd ei angen.

## Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy

### Adeiladu cartrefi newydd

Mae cymdeithasau tai wedi croesawu'r £330m a ddyrannwyd ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol a'r £50m ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yng nghyllideb 2023/24. Mae hyn wedi galluogi cymdeithasau tai i adeiladu cartrefi newydd effeithiol o ran ynni a chyfrannu at wneud Cymru yn lle tecach a gwyrddach.

Fodd bynnag, fel llawer o sectorau eraill, mae adeiladwyr cartrefi wedi wynebu blaenwyntoedd sylweddol mewn blynyddoedd diweddar sydd wedi arafu cyflymder cyflenwi ar darged Llywodraeth Cymru o 20,000 o gartrefi newydd. Effaith hyn fu oedi cynlluniau tai cymdeithasol er ymdrechion gorau cymdeithasau tai, yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ac eraill, i ddatrys problemau a rhwystrau. Y ffactorau mwyaf sylweddol sydd wedi cyfrannu at hyn fu:

- Lefelau uchel o chwyddiant a chynnydd mewn costau. Fel canlyniad, nid yw buddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn ymestyn cymaint ag oedd o'r blaen. Dywed adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru y bydd Llywodraeth Cymru angen rhwng £580 miliwn a £740 miliwn mewn cyfalaf ychwanegol i gyflawni'r holl brosiectau sydd yn yr arfaeth erbyn mis Mawrth 2026.

- Tarfu ar y gadwyn gyflenwi, ac effaith hynny ar y farchnad adeiladu yng Nghymru.

- Heriau cadw a recriwtio, gan arwain at brinder arbenigwyr medrus a staff creiddiol eraill ar draws cynllunio, rheoli amgylcheddol ac adeiladu.

- Diffyg cyfatebiaeth rhwng cymeradwyo rheoli amgylcheddol a'r system cynllunio.

Er yr heriau hyn, mae cymdeithasau tai yn datgloi cynnydd ac maent ar y trywydd i gyflenwi dros 70% o gartrefi fforddiadwy yn ystod tymor hwn y Senedd. Mae angen i ni gadw ar y llwybr a diogelu'r cartrefi sydd gennym yn yr arfaeth i'w hadeiladu.

Dylid cynyddu gwariant cyfalaf arfaethedig y Grant Tai Cymdeithasol i gyfrif am gynnydd mewn costau yn unol ag argymhellion gan Archwilio Cymru, fel y gall cymdeithasau tai adeiladu'r cartrefi fforddiadwy carbon isel newydd y mae gan bobl yng Nghymru angen mor ddybryd amdanynt. Yn ychwanegol, byddai setliadau aml-flwyddyn dangosol parhaus a dilyn y dull gweithredu yma at y Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn rhoi'r sicrwydd y mae'r sector ei angen i barhau i fuddsoddi.

Bu Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol yn amhrisiadwy wrth gynyddu yn gyflym y nifer o gartrefi sydd ar gael, a byddem yn annog y Llywodraeth i barhau i ariannu'r rhaglen hon ac ystyried ffyrdd i ychwanegu at ei darpariaeth, tebyg i:

- Ystyried strwythur y rhaglen i uchafu darpariaeth. Gallai hyn fod yn amserlenni treigl ar gyfer gwneud cais ac alinio gyda blynyddoedd ariannol i sicrhau y gall landlordiaid gyflenwi'r uchafswm nifer o oriau ychwanegol;
- Ystyried ymrwymiadau cyllid tymor hirach i gyfrif am ddod ag anheddau a gaffaelwyd i fyny i'r safonau gofynnol;
- Adolygu gofynion i sicrhau fod yr anheddau a gaffaelwyd yn cael amser digonol i gyrraedd safonau SATC a chynnwys cydnabyddiaeth efallai na chaiff rhai o'r safonau eu cyrraedd ar gyfer anheddau a gaffaelwyd; ac
- Ystyried cynyddu'r cyllid sydd ar gael drwy'r Rhaglen Gyfalaf Llety Trosiannol i gefnogi caffaeliadau fel rhan o raglen ehangach i gynyddu cartrefi cymdeithasol. Dylai hyn roi ystyriaeth i argostau a chostau i godi anheddau i safon.

Yn 2025-26 mae angen strategaeth holistig gan Lywodraeth Cymru i ddod ynghyd â'r holl waith cadarnhaol a gaiff ei wneud i gynyddu argaeledd tai cymdeithasol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad ydym yn dyblygu gweithgaredd neu'n gweithio ar draws-ddiben. Croesawn greu'r Tasglu Tai Fforddiadwy a fydd yn ddull gwerthfawr iawn i ddynodi datrysiadau tymor byr-canol i wella cyflenwi. Mae'r angen hanfodol am fuddsoddiad yn parhau yn 2025/26 a thu hwnt i gynyddu capasiti yn y system cynllunio a chaniatâd ac i wella seilwaith rheoli amgylcheddol.

### Cymorth ariannol i unigolion

Cyhoeddwyd nifer o fesurau yng nghyllideb 2024-5 i gefnogi cyfres o argyfyngau, yn cynnwys:

- Cynnal y Gronfa Cymorth Dewisol ar £38.5m
- Diogelu cymorth ar gyfer gwasanaethau cyngor a'r gyllideb ar gyfer y Gronfa Cynghori Sengl
- Cynnal £35m ar gyfer y Rhaglen Tlodi Tanwydd
- Cynnal £25m ar gyfer Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru

Croesawyd y buddsoddiadau hyn ac maent yn hanfodol ar gyfer pobl sy'n profi caledi ariannol, fodd

bynnag dengys ein hadroddiad ['Argyfwng sy'n Gwaethygu'](#) a gyhoeddwyd ym Mehefin 2024 nad yw'r argyfwng costau byw drosodd ar gyfer tenantiaid cymdeithasol yng Nghymru.

Daeth cymdeithasau tai yn achubiaeth hanfodol ar gyfer y rhai sydd wedi syrthio drwy'r bylchau yn ein system llesiant ganolog ac maent yn rhoi cymorth argyfwng. Yn nhri mis cyntaf 2024, gofynnodd 7,400 o denantiaid i'w cymdeithasau tai am gymorth, cynnydd o 110 tenant o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Yn ystod y cyfnod hwn darparodd cymdeithasau tai dros 2,600 o dalebau banc bwyd a chyngor ar ynni i dros 2,000 o denantiaid. Fe wnaeth cymdeithasau tai hefyd ddarparu mynediad i £1.3m mewn cymorth caledi yn 2023-24.

Yng nghyllideb 2025-26 mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol. Byddem hefyd yn hoffi gweld ymrwymiad i wella system y Grant yma fel y gall barhau i roi cymorth brys yn gyflym, deg a dibynadwy i'r rhai mewn angen. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir integreiddio mesurau ataliol i'r Gronfa, er enghraifft drwy drefniadau atgyfeirio cryfach i wasanaethau cymorth ariannol holistig gan gymdeithasau tai neu wasanaethau cymorth annibynnol.

Bu tlodi, amddifadedd a chyni yn broblem ers amser maith i lawer o gymunedau yng Nghymru. Felly, ynghyd â chymorth argyfwng hanfodol a gyflwynir gan wasanaethau statudol a darparwyr trydydd sector, rydym angen gweithio partneriaeth effeithlon i ddatblygu datrysiadau tymor hirach i gefnogi cymunedau cryf a chydnerth.

## Datgarboneiddio

### Y Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio a Safon Ansawdd Tai Cymru

Darparodd Llywodraeth Cymru £870m ar gyfer y Rhaglen Ôl-osod ar gyfer Optimeiddio. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi cymdeithasau tai i barhau i brofi a threialu mesurau a all ôl-osod cartrefi i safonau uchel mewn effeithiolrwydd ynni.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd glustnodi £18m ar gyfer SATC2023 ar gyfer 2024-25. Croesawodd cymdeithasau tai y gronfa hon fodd bynnag teimlent yn gryf fod y cyfnod ar gyfer gwario'r cyllid a ddyrannwyd (o fewn amserlen o 7 mis) yn rhy fyr. Nid oedd yr amserlen fyr hon yn ffafriol i sicrhau y gall landlordiaid cymdeithasol wario arian yn strategol. Ymhellach, er y croesewir y cyllid hwn, nid yw'n ddigonol i ateb yr her o ôl-osod pob cartref i safonau effeithiolrwydd ynni SATC2023. Rydym angen cynllun gyda chostau llawn ac amserlen y gellir ei chyflawni a strategaeth sy'n galluogi cadw buddsoddiad yng Nghymru i gefnogi'r economi leol.

Mae'r sector tai cymdeithasol yn dal i aros am:

- asesiad clir o gostau llawn cyrraedd SATC2023.
    - Dim ond i ddeall costau'r elfen Gwres Fforddiadwy y mae Llywodraeth Cymru yn cynnal gwaith ar hyn o bryd.

- Penderfyniad ar y dull gweithredu hirdymor ar gyfer cyllido SATC2023.

## Diogelwch Adeiladau

Fe wnaeth y gyllideb ailbroffilio'r gronfa diogelwch adeiladau drwy ryddhau £37m o gyfalaf yn 2024-25 ar gyfer cyllid refeniw. Arhosodd cyfanswm y buddsoddiad mewn Diogelwch Adeiladau ar £165m.

Mae ein sector wedi ymrwymo i roi blaenoriaeth i ddiogelwch yn ein cartrefi a rydym yn parhau i groesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddiogelwch adeiladau drwy ddarparu cyllid i gefnogi cymdeithasau tai yng Nghymru i weithredu dull gweithredu adeilad cyfan at ddiogelwch tân. Disgwyliwn gyhoeddi Bil Diogelwch Adeiladau (Cymru) yn 2025 fydd â goblygiadau ariannol yn deillio o'i weithredu.

## Cymdeithasau tai fel darparwyr gofal cymdeithasol

Fe wnaethom groesawu ymrwymiadau a gyhoeddwyd yng nghyllideb 24/25 yn dyrannu £10,564m i wella gofal cymdeithasol drwy recriwtio a chadw y gweithlu proffesiynol, cynnal y Gronfa Seilwaith Rhanbarthol ar £60.5m a darparu cynnydd o 3.1% i setliad creiddiol llywodraeth leol, sy'n cyllido gofal cymdeithasol.

Fodd bynnag, mae'n amlwg na fu'r ymyriadau hyn yn ddigon i drin y pwysau sylweddol sy'n wynebu cymdeithasau tai sy'n darparu gofal. Ynghyd â phartneriaid, rydym wedi codi pryderon penodol am allu darparwyr i gyflawni ymrwymiadau Cyflog Byw Gwirioneddol oherwydd cynnydd ffioedd annigonol gan gomisiynwyr. Cafodd llawer o ddarparwyr eu gadael gyda diffygion ariannol enfawr ar gyfer eu gwasanaethau yn 2024/25 y bu'n rhaid iddynt roi cymhorthdal iddynt yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn. Ar gyfer cyllideb 25/26 rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wella'r broses o ddosbarthu'r cyllid hwn fel na chaiff darparwyr eu gadael yn y sefyllfa hon am flwyddyn ariannol arall. Cafodd y pwysau hyn eu gwaethygu ymhellach gan gynnydd diweddar yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

Mae cymdeithasau tai yn bartneriaid rhagorol i ddarparu gwasanaethau gofal cofrestredig ond ar hyn o bryd maent yn profi pwysau ar draws y cartrefi a gwasanaethau a ddarparant. Mae'r rhain yn cynnwys pwysau cyllid, gweithio heb ymwneud ag eraill yn atal gwireddu eu potensial llawn a herio perthynas gyda chomisiynwyr oherwydd pwysau ar y system yn ei chyfanrwydd. Yn gynharach eleni fe wnaethom gynnal ymchwil gyda'n haelodau sy'n darparu gofal a dynodi tri maes yn ychwanegol at fuddsoddiad cynyddol y dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth iddo, sef:

- cymryd rôl estynedig i gynnull rhanddeiliaid i sicrhau cydweithio gwell,
- adeiladu dealltwriaeth well o fodel cyllid a rheoleiddio cymdeithasau tai fel bod y Llywodraeth mewn sefyllfa well i wneud penderfyniadau polisi sy'n cymell cymdeithasau tai i aros yn y farchnad gofal
- rhoi uchelgais ar waith drwy ail-ffocysu ar atal yn hytrach nag argyfwng.

**2.Pa mor barod yn ariannol yw'ch sefydliad ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26, sut y**

**bydd chwyddiant yn effeithio ar eich gallu i gyflawni amcanion sydd wedi'u cynllunio, a pha mor gadarn yw'ch gallu i gynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod?**

Mae cymdeithasau tai yn dal i fod mewn sefyllfa ariannol gydnerth, fodd bynnag mae nifer o ffactorau sy'n cael effaith sylweddol ar eu gallu i fuddsoddi ymhellach yn hyderus.

### Ansicrwydd

Mae nifer o ffactorau anhysbys sylweddol sy'n effeithio ar gyllid cymdeithasau tai ar hyn o'u bryd a'u gallu i gynllunio buddsoddiad yn hyderus yn y flwyddyn i ddod:

- Cost anhysbys cyflawni SATC2023. Mae'r gwaith i ddatblygu costiadau gyda thystiolaeth yn parhau ond gwyddom y gallai'r elfen effeithiolrwydd ynni ar ben ei hun gostio o leiaf £30,000 fesul annedd.
- Mae'r adolygiad cyfredol o'r polisi rhent cymdeithasol yn golygu nad oes gan landlordiaid cymdeithasol unrhyw eglurdeb ar incwm rhent y dyfodol tu hwnt i flwyddyn ariannol 25/26.
- Bydd deddfwriaeth arfaethedig ar ddiogelwch adeiladau a rhoi diwedd ar ddigartrefedd yn rhoi cyfrifoldebau cynyddol ar landlordiaid cymdeithasol, fel y gwnaeth deddfwriaeth tebyg i Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru). Mae'r cosbau hyn yn anhysbys ar hyn o bryd.

### Cyllid preifat

Mae cymdeithasau tai yn benthyca cyllid preifat i gefnogi darpariaeth cartrefi cymdeithasol fforddiadwy newydd, gan ychwanegu at werth pob punt o fuddsoddiad cyhoeddus mewn cartrefi newydd. Mae cyfrifon cynhwysfawr 2023 ar gyfer cymdeithasau tai yn dangos cyfanswm dyled o £3.5 biliwn.

Bu cyllid cymdeithasau tai ar draws y Deyrnas Unedig dan bwysau allanol difrifol yn y pum mlynedd ddiwethaf ac nid ydym wedi eu hynysu rhag hyn yn Nghymru. Mae buddsoddiad cynyddol mewn cartrefi, diogelwch ac ansawdd, ynghyd â phwysau chwyddiant a chyfraddau llog cynyddol, wedi gwasgu sefyllfa ariannol landlordiaid cymdeithasol. Er enghraifft, mae costau cynnal a chadw cynlluniedig wedi bron ddyblu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Rhwng 2021/22 a 2022/23, cynyddodd costau ynghynt na throsiant wrth i brisiau gwaith a nwyddau godi. Mae hyn wedi arwain at elw gweithredu is a fydd, os y bydd yn parhau, yn effeithio ar allu cymdeithasau tai i ysgogi cyllid preifat, gan gynyddu eu dibyniaeth ar gyllid cyhoeddus a gostwng y gwrth y medrir ei sicrhau o bob punt gyhoeddus.

### 3. Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r canlynol:

- **helpu aelwydydd i ymdopi â chwyddiant a thrafferthion costau byw;**
- **mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw mewn cymunedau trefol, ôl-ddiwydiannol a gwledig, gan gynnwys adeiladu tai fforddiadwy a chefnogi economïau o fewn y cymunedau hynny?**

Mae'r argyfwng costau byw parhaus wedi effeithio'n sylweddol ar aelwydydd yng Nghymru, yn arbennig y rhai sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Hyd yn oed cyn y pandemig a'r argyfwng costau byw, roedd pobl yng Nghymru yn ei chael yn anodd talu biliau, gwresogi eu cartrefi a chadw bwyd ar y bwrdd. Mae lefelau tlodi Cymru wedi parhau fwy neu lai yn eu hunfan dros y degawd diwethaf ac mae'n amlwg fod yn rhaid i ni ganfod datrysiad hirdymor i'r heriau hirsefydlog hyn.

Mae ein hymchwil diweddaraf ar gostau byw 'Ymateb i'r Argyfwng Diddiwedd' yn rhoi sylw i waith cymdeithasau tai yng Nghymru i adeiladu cymunedau cryf a chydnerth a helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei huchelgais i greu cyfleoedd ar gyfer pob teulu. Mae hyn yn cynnwys cefnogi tenantiaid i gyflogaeth, adeiladu a chynnal cartrefi diogel, cynnes ac effeithiol o ran ynni a mynd tu hwnt i'w diben gofal drwy ddarparu cynlluniau iechyd a llesiant ataliol.

Credwn mai'r ffordd orau allan o'r argyfwng hwn yw drwy gryfhau ein partneriaethau a chydweithio. Rydym wedi dynodi tri maes y credwn ddylai gael blaenoriaeth yn y dyfodol agos.

- **Cryfhau rhannu data:** Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol i alluogi timau Budd-dal Tai o fewn awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth gyda landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru am bwy sy'n hawlio'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Byddai hyn yn galluogi cymdeithasau tai i ddilyn dull gweithredu wedi'i dargedu i gefnogi tenantiaid gyda symud i'r Credyd Cynhwysol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd annog awdurdodau lleol i gyfeirio neu atgyfeirio unigolion sy'n derbyn cais am ostwng treth gyngor i dimau llesiant ariannol eu cymdeithasau tai neu wasanaethau dyled annibynnol eraill.
- **Diogelu cyllid:** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol yn eu cyllideb ddrafft arfaethedig. Dylai Llywodraeth Cymru alw am ddiwygio'r Credyd Cynhwysol i sicrhau y gall y rhai sy'n ei hawlio dalu am hanfodion sylfaenol fel isafswm, yn unol â'r ymgyrch Gwarant Hanfodion a gaiff ei llywio gan Ymddiriedolaeth Trussell a Sefydliad Joseph Rowntree.
- **Gwella cyflenwi:** Hoffem weld gwelliannau i'r Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau ei fod yn hollol gydnaws gydag uchelgais Siarter Budd-daliadau Cymru ac y gall roi cymorth brys yn gyflym, teg a dibynadwy i'r rhai mewn angen. Byddem hefyd yn hoffi gweld mwy o integreiddio ar fesurau ataliol o fewn system y Gronfa Cymorth Dewisol. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r system taliadau tai dewisol mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a'r sawl sy'n ei derbyn. Dylai'r adolygiad hwn anelu i ymchwilio ffyrdd i wella mynediad a defnydd effeithlon o'r gronfa ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru. Byddai system taliad tai dewisol symlach a thecach yn helpu i sicrhau fod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf ei angen.

**5. A yw cynlluniau Llywodraeth Cymru i adeiladu economi wyrddach yn eglur ac yn ddigon uchelgeisiol? Ydych chi'n credu bod digon o fuddsoddiad yn cael ei dargedu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a natur? A oes unrhyw fylchau sgiliau posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw i gyflawni'r cynlluniau hyn?**

Cyllid hirdymor

Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud y sector tai cymdeithasol yn wyrddach yn uchelgeisiol, ond ni chlustnodwyd cyllid iddynt ar hyn o bryd. Gosododd fersiwn newydd SATC a lansiwyd yn 2023 darged effeithiolrwydd ynni o SAP 75 erbyn 2030 a SAP 92 (EPC 92) erbyn amser sy'n gweddu pob cartref. Ymhellach, mae'n rhaid i bob cartref newydd cael eu codi i safon EPC A (neu gyfwerth).

Mae cost sylweddol i ôl-osod cartref i EPC A. Mae gwaith manwl yn mynd rhagddo gan Lywodraeth Cymru i ddeall cost gyfredol datgarboneiddio. Dangosodd ymchwil yn 2021 y bydd yn costio o leiaf £30k fesul annedd i gyrraedd EPC A, fodd bynnag cynhaliwyd yr ymchwil hwn cyn yr argyfwng costau byw a phwysau chwyddiant sylweddol felly mae'n debyg fod y wir gost yn llawer uwch. Ni fydd y £18m rhyngddynt a ddarparodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y 34 cymdeithas tai a'r 12 awdurdod lleol sy'n cadw stoc yn ystod 2024-25, hyd yn oed os caiff ei ailadrodd, yn ddigon i gefnogi gofynion sero net mewn tai.

Sgiliau

Er mwyn datgarboneiddio tai, bydd angen llawer o sgiliau newydd a phresennol. Mae modelu gan y CITB yn awgrymu y bydd angen 12,000 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yng Nghymru erbyn 2028 yn bennaf i ddarparu gwelliannau i adeiladau presennol i ostwng y galw am ynni. Mae hyn yn gynnydd o tua 11% o faint cyfredol y gweithlu yng Nghymru. Amcangyfrifir hefyd y bydd angen 2,800 ychwanegol o weithwyr plymio a gwresogi, awyru a thymheru aer, yn bennaf i osod pympiau gwres erbyn 2028. Ymhellach, bydd angen ychydig dros 2,500 o reolwyr prosiect sy'n cynnwys swyddi penodol fel Cydlynwyr Ôl-osod.

Mae adroddiad Cyfeillion y Ddaear 'Cynllun argyfwng ar swyddi gwyrdd ar gyfer pobl ifanc' yn dweud nad yw llawer o safonau prentisiaeth yn bodoli hyd yma, er enghraifft ôl-osod tai cyfan, tra bo eraill angen diweddariad pwysig a/neu ehangu niferoedd yn sylweddol tebyg i osodwyr pympiau gwres. Mae'r Rhwydwaith Sgiliau Adeiladu yn rhagweld gofyniad recriwtio blynyddol o dros 2,000 o grefftwyr gosod pren a ffitio mewnol ac ychydig dan 2,000 o weithwyr plymio, gwresogi, awyru a thymheru aer ar draws y Deyrnas Unedig hyd at 2023. Ynghyd â'r crefftau hyn, mae'r Ffederasiwn y Meistr Adeiladwr hefyd yn cynnwys plastrwyr a gweithwyr toi yn y chwech swydd uchaf lle mae prinder.

Dengys dadansoddiad yr IPPR y gallai hyd at 750,000 o weithwyr adeiladu ymddeol neu fod ar fin ymddeol yn y Deyrnas Unedig dros y 15 mlynedd nesaf. Dywedant na chaiff digon ei wneud i gael gweithwyr newydd yn eu lle, gyda dim ond 20% o weithwyr adeiladu dan 30 oed.

### 7. Hoffai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar nifer o feysydd penodol eraill wrth graffu ar y Gyllideb. A oes gennych unrhyw sylwadau penodol o ran y meysydd a nodir isod?

### A oes digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chostau byw cynyddol a chefnogi'r bobl hynny sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol?

Rydym yn cefnogi nodau Siarter Budd-daliadau Cymru i gynyddu'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru, codi ymwybyddiaeth o hawl i fudd-daliadau, gostwng yr angen am gymorth argyfwng a gwella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn aelwydydd incwm isel. Deallwn fod Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru wrthi'n datblygu cynllun gwaith ar gyfer gweithredu. Mae'n rhaid i'r gwaith hwn barhau yn gyflym. Ar hyn o bryd, mae gormod o unigolion yn syrthio drwy'r bylchau yn ein darpariaeth llesiant.

Credwn mai'r ffordd allan o'r argyfwng yw drwy gryfhau ein partneriaethau a chydweithio. Rydym wedi dynodi tri maes y credwn ddylai gael blaenoriaeth yn y dyfodol agos.

- **Cryfhau rhannu data:** Dylai Llywodraeth Cymru annog Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Memorandwm Dealltwriaeth rhwng yr Adran Gwaith a Phensiynau ac awdurdodau lleol i alluogi timau Budd-dal Tai o fewn awdurdodau lleol i rannu gwybodaeth gyda landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru am bwy sy'n hawlio'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Byddai hyn yn galluogi cymdeithasau tai i ddilyn dull gweithredu wedi'i dargedu i gefnogi tenantiaid gyda symud i'r Credyd Cynhwysol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd annog awdurdodau lleol i gyfeirio neu atgyfeirio unigolion sy'n derbyn cais am ostwng treth gyngor i dimau llesiant ariannol eu cymdeithasau tai neu wasanaethau dyled annibynnol eraill.
- **Diogelu cyllid:** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol yn eu cyllideb ddrafft arfaethedig. Dylai Llywodraeth Cymru alw am ddiwygio'r Credyd Cynhwysol i sicrhau y gall y rhai sy'n ei hawlio dalu am hanfodion sylfaenol fel isafswm, yn unol â'r ymgyrch Gwarant Hanfodion a gaiff ei llywio gan Ymddiriedolaeth Trussell a Sefydliad Joseph Rowntree.
- **Gwella cyflenwi:** Hoffem weld gwelliannau i'r Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau ei fod yn hollol gydnaws gydag uchelgais Siarter Budd-daliadau Cymru ac y gall roi cymorth brys yn gyflym, teg a dibynadwy i'r rhai mewn angen. Byddem hefyd yn hoffi gweld mwy o integreiddio ar fesurau ataliol o fewn system y Gronfa Cymorth Dewisol. Rydym hefyd yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r system taliadau tai dewisol mewn ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid a'r sawl sy'n ei derbyn. Dylai'r adolygiad hwn anelu i ymchwilio ffyrdd i wella mynediad a defnydd effeithlon o'r gronfa  ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru. Byddai system  taliad tai dewisol symlach a thecach yn helpu i sicrhau fod cymorth yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf ei angen.

**A gaiff dull gweithredu Llywodraeth Cymru, o ran gwaith ataliol, ei gynrychioli o ran dyrannu adnoddau (gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau a lliniaru'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol, drwy ymyrryd yn gynnar).**

Fel y nodir uchod, hoffem weld gwelliannau i'r Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau y galluogi cymorth brys yn gyflym, teg a dibynadwy i'r rhai sydd mewn angen ond hefyd i gynnwys mesurau ataliol yn well yn y broses. Er enghraifft, ystyried sut y gallai gweithio partneriaeth a threfniadau at gyfeirio cryfach sicrhau y caiff cyllid o'r Gronfa Cymorth Dewisol ei ddarparu ynghyd â chymorth ariannol holistig arall a ddarperir gan gymdeithasau tai neu wasanaethau cymorth annibynnol eraill.

Dynododd ein hymchwil diweddar ar gostau byw hefyd fy bu gostyngiad sylweddol yn y cyfanswm gwariant ar elfen Daliadau Cymorth Unigol y Gronfa Cymorth Dewisol. Rhwng Ebrill – Mehefin 2023 cafodd dros £4.2m ei wario ar draws awdurdodau lleol ac mae'r cyfanswm hwnnw wedi bron haneru i £2.8m yn ystod yr un cyfnod eleni. Elfen y Taliadau Cymorth Unigol o'r Gronfa Cymorth Dewisol yw'r elfen fwy ataliol sy'n galluogi cleientiaid i brynu dodrefn, nwyddau gwyn ac eitemau eraill i'r cartref. Mae'n rhaid i ni weld Llywodraeth Cymru yn diogelu cyllid y Gronfa Cymorth Dewisol.

Fe wnaethom hefyd nodi yn gynharach yn ein hymateb y darlun llwm sy'n wynebu darparwyr cymorth yn eu gwaith hanfodol i ymateb i ac atal digartrefedd. Mae cyllid Grant Cymorth Tai yn parhau i fod dan fygythiad bob blwyddyn ym mhrosesau Llywodraeth Cymru – gyda chynnydd yn aml yn cael ei ganfod rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol. Ni ddylai fod fel hyn. Nid yw'r ansicrwydd blynyddol hwn yn

sefyllfa lle gallwn gynnal gwasanaethau ansawdd da gyda staff medrus iawn yn cyflenwi gwaith sy'n newid bywydau.

Hoffem weld datrysiad cyllid cynaliadwy i'r Grant Cymorth Tai i nid yn unig ateb y galw cyfredol am ymyriadau atal digartrefedd, ond yn arbennig i hwyluso cyflawni ein huchelgais fel rhan o'r diwygiadau cyfredol i ddigartrefedd.

**I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â bethan-proctor@chcymru.org.uk os gwelwch yn dda.**